Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Glybiau Bechgyn a Merched Cymru

**Parc Technoleg Pencoed**
**Pencoed**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF35 5HZ**

**Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Cyd-destun y ddarpariaeth

Mae Clybiau Bechgyn a Merched Cymru (BGC Cymru) yn fudiad gwaith ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol. Ac yntau wedi'i sefydlu ym 1928 yng nghymunedau glofaol de Cymru, deilliodd y mudiad o fenter glowyr a sefydlodd glybiau i gynnig lleoedd hamdden i fechgyn ifanc ar ôl diwrnodau hir yn y pyllau glo.

Mae BGC Cymru yn darparu ar gyfer pobl ifanc ar draws Cymru trwy glybiau bechgyn a merched traddodiadol, clybiau ieuenctid cymunedol, a chlybiau chwaraeon a gweithgareddau. Ar hyn o bryd, mae dros 140 o glybiau gwaith ieuenctid a chwaraeon yn aelodau ohono.

Mae staff a gwirfoddolwyr yn hwyluso profiadau dysgu nad ydynt yn ffurfiol i'r aelod-glybiau, gan gynnig y gallu i gymryd rhan mewn prosiectau, gweithdai anffurfiol a mentrau ieuenctid rhyngwladol. Mae BGC Cymru yn galluogi arweinwyr a gwirfoddolwyr i allu manteisio ar hyfforddiant, gan gynnwys Cymwysterau Gwaith Ieuenctid Lefel 2 a 3, ynghyd â chynnig arweiniad ar gyllid, cynaliadwyedd a sicrhau statws elusennol.

Ers Ionawr 2022, mae'r sefydliad wedi gweld newidiadau sylweddol, gan gynnwys penodi Trysorydd, Prif Weithredwr a Chadeirydd newydd. Mae'r tîm arwain newydd wedi cyhoeddi strategaeth newydd, i'w gwireddu ar 15 Medi 2028, i gyd-fynd â chanmlwyddiant y sefydliad. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y mudiad yn 2028, gan ymgorffori rhaglenni i bobl ifanc, systemau cymorth clwb, mentrau chwaraeon ac iechyd, a phrosesau gweithredol. Yn ogystal, mae'r strategaeth yn amlygu rôl canolfan breswyl y Lodge wrth ategu datblygiad ieuenctid a chynaliadwyedd sefydliadol.

## Crynodeb

Mae BGC Cymru yn ymdrechu'n dda i gyflawni ei genhadaeth, sef 'cefnogi pob person ifanc i fyw bywyd iach a hapus, datblygu medrau newydd, cael hwyl a gwneud cyfraniad ystyrlon i'w gymuned'. Mae'r sefydliad yn gwneud hyn trwy weithio gyda grwpiau cyswllt a phartneriaid i ddarparu, hwyluso neu gefnogi amrywiaeth eang o brosiectau gwaith ieuenctid ac arbenigol gyda phartneriaid. Mae'n hyrwyddo buddiannau pobl ifanc yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae pobl ifanc yng nghlybiau a grwpiau cyswllt BGC Cymru yn datblygu'n dda trwy amrywiaeth eang o brofiadau heriol a chyfleoedd teithio sy'n aml yn newid eu bywyd. Maent yn gwneud cynnydd personol ac yn ennill amrywiaeth o fedrau sy'n berthnasol i'w bywyd bob dydd ac yn aml yn arwain at gymhwyster defnyddiol. Mae llawer o bobl ifanc yn dysgu mynegi eu hunain yn dda a rhannu eu barn wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau artistig, chwaraeon a hwyl. Trwy amrywiaeth o glybiau chwaraeon a gweithgareddau awyr agored yng nghanolfan breswyl y Lodge, maent yn datblygu'n gorfforol ac yn deall gwerth ffyrdd iach o fyw. Mae llawer o bobl ifanc yn dysgu gwerthfawrogi eu cymunedau a chefn gwlad, yn gwella'u hymddygiad a chyfathrebu, ac yn dysgu medrau bywyd pwysig.

Mae pobl ifanc yn dysgu deall a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd ac maent yn sylweddoli bod eu barn yn bwysig, ni waeth beth yw eu hamgylchiadau personol. Mae ychydig yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgyrchu. Mae llawer o bobl ifanc yn mynegi safbwyntiau neu'n gwneud penderfyniadau yn rheolaidd am ba weithgareddau sydd ar gael ac mae ychydig ohonynt yn cyfrannu at ysgrifennu cynigion am gyllid.

Mae pobl ifanc, gan gynnwys y rheiny sydd ar eu pen eu hunain neu sydd ag anableddau, yn cymysgu'n dda â phobl ifanc eraill ac aelodau o'u cymunedau. Mae clybiau yn gyfeillgar ac yn groesawgar. Yn ystod ymweliadau a chyfnewidfeydd, mae pobl ifanc yn gwneud ffrindiau o wledydd a diwylliannau eraill. Mae pobl ifanc yn datblygu eu hunan-barch, yn dysgu wynebu heriau newydd ac yn dod yn unigolion mwy hyderus.

Mae gweithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr yn ymroddedig ac yn frwdfrydig ac maent yn gweithio'n effeithiol gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau. Mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â phobl ifanc, maent yn gwrando arnynt ac yn deall y bobl ifanc a'u cymunedau yn dda. Mae gweithwyr ieuenctid wedi'u hyfforddi'n dda ac yn rhannu eu medrau â gwirfoddolwyr.

Mae BGC Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid a grwpiau cyswllt i ddatblygu darpariaeth i fodloni anghenion pobl ifanc yn eu cymunedau ac ar gyfer grwpiau penodol o bobl ifanc. Mae pobl ifanc yn manteisio ar waith ieuenctid mewn amryw ffyrdd sy'n ysgogol, yn hwyl ac yn annog dysgu a hunanddatblygiad ehangach. Mae gweithgareddau'n amrywio o glybiau ieuenctid traddodiadol a chwaraeon, yn aml mewn cymunedau wedi'u hynysu, i waith ar y stryd a gwaith arbenigol gyda phobl ifanc ar gyrion cymdeithas. Mae cyfnewidfeydd rhyngwladol yn rhan fawr a chynyddol o waith y sefydliad ac mae'r cyfleoedd hyn ar gael i bobl ifanc o bob cwr o Gymru wneud cais amdanynt, nid dim ond aelodau clwb traddodiadol.

Mae gan BGC Cymru amrywiaeth o drefniadau partneriaeth, gan gynnwys cydweithredu â chlybiau cyswllt i ddarparu gwaith ieuenctid yn uniongyrchol i bobl ifanc mewn amrywiaeth o brosiectau difyr ar draws Cymru. Hefyd, mae'r sefydliad yn darparu cymorth i glybiau partner neu glybiau cyswllt. Mae llawer o weithgareddau chwaraeon traddodiadol y mudiad wedi datblygu dros y blynyddoedd yn weithgareddau gwaith ieuenctid ehangach ac mae'r ddwy agwedd hon ar y gwaith bellach yn ategu ei gilydd yn dda.

Yn ddiweddar, mae rheolaeth y mudiad wedi cael ei thrawsnewid ac mae hyn wedi adfywio ei flaenoriaethau strategol a gosod cynlluniau uchelgeisiol at y dyfodol.

Mae swyddogion ac ymddiriedolwyr yn cael gwybodaeth dda trwy adroddiadau chwarterol gan swyddogion ac mae'r mudiad yn adrodd yn briodol i gyflawni meini prawf ei amrywiol ffrydiau cyllid. Mae cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys amcanion a thargedau clir ac mae rheolwyr yn asesu risgiau ac yn gwerthuso effaith y gwaith. Fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth am anghenion hyfforddi staff a'r materion presennol sy'n wynebu pobl ifanc mewn clybiau cyswllt ei chasglu'n ddigon systematig i helpu BGC Cymru i deilwra ei gymorth.

Mae gan BGC Cymru ethos dysgu proffesiynol cryf iawn ac mae'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i staff ddatblygu, myfyrio ac ennill cymwysterau. Mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu hymestyn i staff mewn grwpiau cyswllt ac i bartneriaid eraill. Mae'r holl weithwyr ieuenctid craidd, y dechreuodd llawer ohonynt fel aelodau o'r clybiau ieuenctid, wedi cymhwyso'n broffesiynol yn briodol ac wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Mae trefniadau diogelu priodol ar waith gan y mudiad ac mae'n gweithio'n gadarnhaol i hyrwyddo diwylliannau diogelu grwpiau cyswllt. Mae BGC Cymru wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth weithredu ei bolisi iaith Gymraeg.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r gwasanaeth i barhau i wella:

A1 Datblygu systemau i sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n fwy systematig rhwng clybiau cyswllt a BGC Cymru fel y gallant gynorthwyo â materion allweddol ac anghenion hyfforddi

A2 Gyrru gwaith yn ei flaen i gyflawni targedau a chamau gweithredu eu polisi iaith Gymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Sut mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial?

Mae pobl ifanc sy’n cymryd rhan yng ngweithgareddau BGC Cymru a phobl ifanc mewn clybiau cyswllt yn herio’u hunain ac yn ennill amrywiaeth eang o brofiadau sy’n ychwanegu at eu datblygiad personol. Yn aml, maent yn penderfynu pa weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt ac maent yn helpu i gynllunio a rhedeg prosiectau. Trwy deithiau, cyfnewidfeydd tramor a phrofiadau preswyl, mae llawer ohonynt yn ennill gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth ynghylch amrywiaeth eang o faterion. Maent yn datblygu hunanymwybyddiaeth ac empathi tuag at eraill. Mae eu profiadau dysgu yn aml yn newid eu bywyd.

### Addysgol

Mae pobl ifanc sydd efallai erioed wedi teithio o’u hardal leol o’r blaen, yn cymryd rhan mewn teithiau cyfnewid, er enghraifft i America a’r Almaen. Maent yn ennill profiad, gwybodaeth a dealltwriaeth uniongyrchol o wahanol ddiwylliannau a ffyrdd o fyw. Mae pobl ifanc ar daith i Ffrainc yn ymweld ag atyniadau i dwristiaid ac yn dysgu am arferion lleol. Mae pobl ifanc o wahanol rannau o Gymru yn teithio, er enghraifft, o Ynys Môn wledig i dde Cymru. Maent yn ymweld â’r Senedd, Aberfan a mannau o ddiddordeb hanesyddol. Mae hyn yn ehangu eu gwybodaeth am hanes, gorffennol diwydiannol a threftadaeth Cymru ac mae’n rhoi ymdeimlad iddynt o fod yn rhan o un genedl.

Mae llawer o bobl ifanc ym mhrosiectau BGC Cymru yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a chwaraeon. Maent yn datblygu ffitrwydd corfforol, medrau tîm a dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw trwy amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys rygbi, pêl-droed, bocsio a *dodge ball*. Mae llawer o ferched yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ochr yn ochr â’r bechgyn. Mae llawer o bobl ifanc yn ennill tlysau a dyfarniadau chwaraeon, hyfforddiant ac arwain cydnabyddedig sy’n werthfawr yn nes ymlaen mewn bywyd. Caiff lluniau o’u cyflawniadau eu harddangos ar waliau safleoedd clybiau lleol i’r gymuned eu dathlu. Yn holl bwysig, maent yn dysgu sut i ddathlu llwyddiant a derbyn siom colli.

Mae llawer o bobl ifanc sy’n mynd i ganolfan breswyl awyr agored y Lodge, gan gynnwys y rheiny o grwpiau dan anfantais penodol, fel y rhai sy’n ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol, yn dysgu amrywiaeth o fedrau ymarferol, meithrin tîm a datrys problemau. Mae’r rheiny o ardaloedd trefol yn dechrau mwynhau bod yn yr awyr agored a gwerthfawrogi prydferthwch tirwedd a chefn gwlad Cymru. Dywed rhieni a gofalwyr fod y bobl ifanc sydd efallai â heriau cymdeithasol, yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu hymddygiad a’u hyder mewn cyfnod byr. Er enghraifft, mae pobl ifanc yn gwella’u medrau lleferydd a chyfathrebu yn sylweddol trwy gymryd rhan mewn prosiect canŵio.

Oherwydd eu gwreiddiau yng nghymunedau Cymru, mae gan glybiau ddealltwriaeth gadarn o’r profiadau addysgol y mae eu hangen ar bobl ifanc ac maent yn datblygu cyfleoedd dysgu anffurfiol yn gysylltiedig â’r rhain. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn ennill dealltwriaeth o fwyta’n iach, cyllideb ac arbed ynni. Yn aml, mae’r bobl ifanc hyn yn ennill tystysgrifau hylendid bwyd a chymwysterau ffurfiol cydnabyddedig eraill

mewn meysydd fel diogelwch y rhyngrwyd, codio cyfrifiadurol, iechyd a diogelwch, a medrau gwleidyddol. Mae'r bobl ifanc yn talu sylw ac yn dangos diddordeb gan fod eu dysgu yn canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw a'u teulu.

Trwy ymgysylltu â gweithgareddau BGC Cymru a'r gweithgareddau mewn grwpiau cyswllt, mae pobl ifanc yn manteisio ar hyfforddiant gwaith ieuenctid sy'n amrywio o ddyfarniadau arweinwyr iau a chymwysterau lefel 2, i lefelau gradd ac ôl-radd. Mae llawer ohonynt yn symud ymlaen neu'n dychwelyd i weithio yng nghlybiau ieuenctid a lleoliadau cyswllt BGC Cymru.

Mae BGC Cymru yn arddangos cyflawniadau pobl ifanc yn yr adroddiad blynyddol lliwgar a gaiff ei gyhoeddi ac mewn nosweithiau dathlu lleol. Mae pobl ifanc nad ydynt efallai'n mwynhau llwyddiant yn yr ysgol, a'u rheini a'u gofalwyr, yn hynod falch o'u cyflawniadau.

## Mynegiannol

Mae pobl ifanc yn mynegi eu hunain trwy'r amrywiaeth o eang o weithgareddau maent yn eu cyflawni mewn clybiau ieuenctid a phrosiectau. Maent yn dysgu cyfathrebu'n dda â'i gilydd ac yn teimlo'n gyfforddus i rannu eu barn mewn amgylchedd diogel. Trwy ymuno â gweithgareddau gyda gweithwyr ieuenctid medrus a'u cymheiriaid, maent yn teimlo'n hyderus i fynegi eu hunain heb embaras na chwithdod, a chael hwyl. Yn aml, bydd eu ffonau a'r cyfryngau cymdeithasol yn cael eu rhoi i'r naill ochr. Mae pobl ifanc yn mynegi eu hunain trwy weithgareddau syml fel gwneud gemwaith sylfaenol, gemau bwrdd a gwaith celf. Wrth gymryd rhan, byddant yn sgwrsio â'i gilydd a gweithwyr ieuenctid am faterion sy'n effeithio ar eu bywyd. Mewn achosion penodol, mae'r gweithgareddau'n arwain at brosiectau gwaith celf mwy medrus fel prosiect Celf Wal Severn Sisters. Mae eraill yn mynegi eu hunain trwy wrando ar gerddoriaeth. Mewn prosiectau cyswllt fel Hyb Grangetown, mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn ffotograffiaeth, celf a dawns. Mae nifer fawr o bobl ifanc ym mhrosiectau BGC Cymru yn mynegi eu hunain yn dda trwy weithgareddau chwaraeon ac awyr agored.

## Cyfranogol

Mae llawer o bobl ifanc yn cymryd rhan yng ngweithgareddau sylweddol llais y dysgwr sy'n cael eu darparu neu eu hwyluso gan BGC Cymru. Trwy'r fforwm ieuenctid a gweithgareddau addysg wleidyddol, fel siarad â Gweinidogion y Senedd, mae llawer o bobl ifanc yn dysgu am ddemocratiaeth a'r system wleidyddol yng Nghymru a'r DU. Trwy weithgareddau fel 'bod yn weinidog am y dydd', mae pobl ifanc yn ystyried y rhinweddau sydd eu hangen i ddal swydd wleidyddol a sut i gynrychioli eu cymheiriaid. Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau pleidleisio realistig, fel pleidleisio dros berson ifanc i fod yn aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, maent yn datblygu hyder i gymryd rhan mewn democratiaeth a mynd â'r wybodaeth hon yn ôl i'w cymuned. Mae clybiau a gweithgareddau yn boblogaidd ac mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfleoedd a gaiff eu cynnig iddynt.

**‘Raise Your Voice’**

Mae prosiect ‘Raise Your Voice’ yn gweithio gyda phobl ifanc ar y cyrion nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau, ac yn enwedig ddim mewn cynghorau ieuenctid, gwaith ymgynghorol neu wleidyddiaeth. Dyma bobl ifanc na fyddai eu lleisiau’n cael eu clywed fel arfer ac nad ydynt yn gwybod beth yw eu hawliau. Fe wnaeth gweithwyr ieuenctid ymgysylltu â’r bobl ifanc hyn trwy ddulliau cyfranogol a grymusol mewn gweithgareddau preswyl ac awyr agored ac mewn lleoliadau clybiau ieuenctid.

Trwy’r prosiect, sylweddolodd pobl ifanc fod eu barn yn bwysig a dysgont sut i sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed. Arweiniodd hyn at gyd-ddatblygu gwefan ‘Raise Your Voice’ mewn partneriaeth â MAD Abertawe. Trwy’r wefan hon, mae pobl ifanc yn darganfod gwybodaeth am ddemocratiaeth ac yn cofrestru eu barn. Mae ychydig ohonynt bellach yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgyrchu dros hawliau pobl ifanc. Enillodd prosiect ‘Raise Your Voice’ wobr rhagoriaeth gwaith ieuenctid Cymru yn 2022.

Mae ychydig o bobl ifanc yn cymryd rhan yng ngweithgareddau rheoli BGC Cymru trwy wneud dewisiadau am ba fath o brosiectau gwaith ieuenctid ddylai gael eu cynnwys mewn cynigion am gyllid, er enghraifft am arian Taith[1] sy’n eu galluogi i gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau cyfnewid tramor.

Mae pobl ifanc yn mynychu clybiau a phrosiectau yn dda ac maent yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau cymdeithasol a datblygiadol sydd ar gael iddynt..

**Cynhwysol**

Mae pobl ifanc mewn clybiau a gweithgareddau yn gyfeillgar a chroesawgar. Maent yn cymysgu’n dda â phobl ifanc eraill, o’u hysgol neu eu lleoliad eu hunain, a gyda phobl ifanc yn ystod ymweliadau a chyfnewidfeydd.

Trwy hyb gwirfoddolwyr yr heddlu, mae pobl ifanc yn ennill gwell dealltwriaeth o’r ffordd y mae’r heddlu yn gweithio ac yn manteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli yn eu cymunedau i ddod yn wirfoddolwyr gyda’r heddlu. Maent yn ennill cipolwg i fywyd cymunedol ac, yn ei dro, mae hyn yn codi proffil a statws pobl ifanc yn eu cymuned. O ganlyniad, mae barn oedolion am bobl ifanc a’u cyfraniadau cadarnhaol at gymdeithas yn aml yn gwella.

Gall pobl ifanc gyfeirio’u hunain at weithgareddau niferus BGC Cymru maent yn eu gweld yn cael eu hysbysebu. O ganlyniad, mae pobl ifanc sy’n byw mewn cymunedau arunig yn gwneud ffrindiau mewn ardaloedd eraill o Gymru a’r byd, ac maent yn ennill y medrau cymdeithasol y bydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith a bywyd yn y dyfodol.

---

[1] Mae Taith yn gyllid sy’n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pobl ifanc sy’n ymgymryd â gweithgareddau er mwyn dysgu dramor.

Yng nghlwb iaith a lleferydd New Dragons yn yr Wyddgrug ac yng nghlwb Cymdeithas Frenhinol y Deillion, mae pobl ifanc yn gwella'u medrau cyfathrebu, gan gael cyfle hefyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill y mae pobl ifanc yn eu mwynhau.

**New Dragons**

Mae clwb iaith a lleferydd New Dragons yn cynnig amgylchedd diogel a phriodol i bobl ifanc ag amrywiaeth eang o anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu, anhwylder sbectrwm awtistig neu anghenion dysgu ychwanegol eraill. Unwaith yr wythnos, mae pobl ifanc yn manteisio ar amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio'n ofalus ac sy'n briodol o ysgogol, gan gynnwys amrywiaeth o gelf a chrefft fynegiannol a chyfleoedd gemau. Mae pobl ifanc yn rhyngweithio'n gymdeithasol ac yn dysgu mewn ffordd a allai fod yn heriol iddynt rywle arall. O ganlyniad, maent yn datblygu'u medrau cyfathrebu a'u hyder cymdeithasol yn ogystal â gwneud ffrindiau.

Mae'r gweithwyr ieuenctid yn y clwb yn gweithio'n hynod fedrus gyda'r grŵp penodol hwn o bobl ifanc, a chânt eu cefnogi gan amrywiaeth eang o ddysgu proffesiynol. Mae BGC Cymru yn gweithio'n dda gydag awdurdod lleol Sir y Fflint sy'n ariannu'r ddarpariaeth. Mae'r bartneriaeth hon yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc a fyddai'n elwa o'r ddarpariaeth yn manteisio arni. Mae BGC Cymru yn cefnogi staff yn briodol, er enghraifft trwy roi cyfle i staff gynnal ymweliadau paratoadol fel y gallant gefnogi pobl ifanc yn briodol i fanteisio ar gyfleoedd cyfnewid rhyngwladol. Trwy gymysgu â phobl ifanc o wahanol grwpiau mewn digwyddiadau preswyl a gweithgareddau eraill ar y cyd, mae pobl ifanc o wahanol gefndiroedd economaidd gymdeithasol ac o gymunedau gwledig ynysig yn ehangu eu grwpiau o ffrindiau ac yn datblygu dealltwriaeth ac empathi tuag at eraill.

**Grymusol**

Trwy gyfnewidfeydd tramor, er enghraifft i America a'r Almaen, mae pobl ifanc yn datblygu hyder a hunan-barch. Mae pobl ifanc sy'n ynysig a heb adael eu hardal leol fyth yn gwneud ffrindiau newydd, yn dysgu am ddiwylliannau eraill ac yn datblygu hunanymwybyddiaeth. Maent yn dod i ddeall eu hemosiynau, wynebu eu hofnau a dod i ddibynnu'n fwy arnynt eu hunain. Trwy gamu allan o'r hyn sy'n gysurus iddynt, mae pobl ifanc yn wynebu sefyllfaoedd corfforol ac emosiynol heriol gyda chefnogaeth gweithwyr ieuenctid. Trwy'r profiadau hyn, dônt yn unigolion mwy hyderus.

**Beth all pobl ifanc ei ddisgwyl oddi wrth ddarpariaeth gwaith ieuenctid**

Mae gweithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr yn gweithio'n effeithiol iawn gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o glybiau a phrosiectau sy'n cael eu cynnig gan BGC Cymru a'i grwpiau cyswllt. Mae gweithwyr ieuenctid yn siarad â phobl ifanc, gan ddysgu beth hoffent ei wneud a darparu gweithgareddau addas, gan gynnwys cyfleoedd priodol i ennill cymwysterau. Mae'r gweithgareddau hyn yn amrywio o weithgareddau traddodiadol clybiau ieuenctid, gweithgareddau chwaraeon, cyfnewidfeydd ieuenctid, profiadau preswyl a gweithgareddau addysgol ffurfiol a rhai nad ydynt yn ffurfiol.

Mae gweithwyr ieuenctid yn ymroddedig, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn frwdfrydig. Maent yn deall pobl ifanc a'r cymunedau maen nhw'n byw ynddynt yn dda. Maent yn

defnyddio eu medrau gwaith ieuenctid yn dda i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â phobl ifanc. Mae hyn yn meithrin ymddiriedaeth ac yn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu eu medrau yn unol â'u dewisiadau a'u diddordebau personol. Mae gweithwyr ieuenctid yn dilyn yr egwyddor y dylai gwaith ieuenctid gael ei arwain gan bobl ifanc a bod perthnasoedd yn wirfoddol ac yn gefnogol. Caiff gwirfoddolwyr eu harwain i fabwysiadu ffyrdd tebyg o weithio gyda phobl ifanc.

Mewn clybiau ieuenctid traddodiadol, mae gweithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr yn sgwrsio gyda phobl ifanc dros y bwrdd pŵl, wrth wneud prydau bwyd syml, wrth chwarae gemau bwrdd neu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn yr awyr agored. Maent yn sylwi ar faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc ac yn aml yn siarad am eu problemau. Mae gweithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr yn meithrin a chynnal perthnasoedd effeithiol, dibynadwy ac addysgol gyda phobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd a lleoliadau. Mae pobl ifanc yn ymateb yn dda i staff ac mae amrywiaeth o ddysgu'n digwydd, gan gynnwys addysg bersonol a chymdeithasol sy'n cefnogi medrau bywyd, ac agweddau sy'n cefnogi mathau mwy ffurfiol o astudio. Er enghraifft, mae pobl ifanc o gefndiroedd heriol yn gweld gwelliannau yn eu medrau lleferydd a chyfathrebu o ganlyniad uniongyrchol i gymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad gwaith ieuenctid. Mae rhaglenni dysgu mwy strwythuredig sydd ar gael, fel rhaglen y Dyfarniad Arweinwyr Chwaraeon, yn cynnig mynediad gwerthfawr at achredu ac mae'n cyfrannu at gofnodion cyflawniad pobl ifanc.

**Teithiau Cyfnewid Rhyngwladol**

Mae gweithwyr sy'n cynllunio ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfnewid yn dod â chyfoeth o brofiad a dealltwriaeth o'u dysgu o deithiau blaenorol, sy'n cefnogi ac yn mentora pobl ifanc yn dda. Maent yn paratoi pobl ifanc yn dda ar gyfer posibiliadau'r daith, yn ymarferol ac yn emosiynol, ac maent yn eu cefnogi trwy adegau cadarnhaol a negyddol bod oddi cartref, mewn gwlad ddieithr ac, yn aml, gyda phobl ifanc sy'n ddieithr iddynt cyn y daith. Mae gweithwyr ieuenctid yn eu cynorthwyo i ddelio â'u hemosiynau, rhoi cynnig ar brofiadau a bwydydd newydd, dangos goddefgarwch tuag at eraill a gwneud ffrindiau newydd. Yn ystod y teithiau, mae gweithwyr ieuenctid yn manteisio ar y cyfle i drafod llawer o faterion gyda phobl ifanc, gan rannu profiadau bywyd a helpu'r bobl ifanc i ddatblygu a thyfu tuag at oedolaeth. Yn aml, mae'r profiadau hyn yn newid bywyd ac yn ehangu gorwelion pobl ifanc na chawsant gyfleoedd cyn hynny i fentro o'u cymunedau lleol ac, weithiau, gwledig.

Mae gweithwyr ieuenctid yn cymhwyso prosesau dewis trylwyr i'r rhai sy'n gwneud cais i gymryd rhan yn y profiadau hyn ac maent yn cefnogi'r rhai nad ydynt yn cael lle. Maent yn cynnig profiadau neu deithiau lleol eraill ac yn cefnogi'r ymgeiswyr aflwyddiannus i ddatblygu'r medrau a'r feddylfryd sydd eu hangen i wneud cais am ymweliad cyfnewid yn y dyfodol.

Hefyd, mae gweithwyr ieuenctid yn ennill gwybodaeth, medrau ac arbenigedd newydd o'r teithiau hyn ac o ymweliadau canfod ffeithiau i staff. Maent yn datblygu syniadau newydd, yn enwedig o deithiau i glybiau Bechgyn a Merched yn nhaleithiau America, sy'n helpu i ehangu a gwella gwaith y sefydliad yng Nghymru.

Mae BGC Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn effeithiol i sicrhau bod anghenion penodol pobl ifanc yn cael eu bodloni. Mae hyn yn cynnwys datblygu darpariaeth fwy teilwredig ac arbenigol sy'n mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc fregus, er enghraifft trwy glwb ieuenctid iaith a lleferydd New Dragons yn yr Wyddgrug, lle mae tîm medrus ac ymroddedig yn cefnogi pobl ifanc ag awtistiaeth.

Mae'r ddarpariaeth hon yn dangos gweithio effeithiol mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, a chaiff ei chefnogi gan berthynas gyllid uniongyrchol rhwng yr awdurdod lleol a BGC Cymru a all felly gyflogi ymarferwyr lleol. Mae arbenigedd y gweithwyr ieuenctid yn cael ei gydnabod gan yr awdurdod lleol, y mae'r prosiect yn rhannu staff â nhw.

Mae llawer o ddarpariaeth gyswllt wedi'i lleoli mewn ardaloedd amddifad ac mae'n gweithio'n effeithiol gyda BGC Cymru i sicrhau bod anghenion sy'n gysylltiedig â thlodi yn cael eu bodloni, gan gynnwys darparu bwyd i bobl ifanc a'u teuluoedd a'r cymwysterau y mae eu hangen ar staff i ddarparu bwyd yn ddiogel.

Yn y prosiectau democratiaeth mae gweithwyr ieuenctid yn helpu pobl ifanc i ddeall sut mae democratiaeth leol a chenedlaethol yn gweithio, gan roi'r hyder iddynt godi eu problemau eu hunain yn eu cymunedau ac annog eu cymheiriaid i bleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru.

Mae BGC Cymru yn gweithio gyda'i grwpiau cyswllt i ddarparu agweddau ar waith ieuenctid ar y cyd, gan roi seilwaith cenedlaethol ar gyfer llawer o brosiectau gwaith ieuenctid ar draws Cymru. Mae'n cefnogi gwaith grwpiau unigol sydd â chyfansoddiadau ar wahân ac mae'n darparu lefelau sylweddol o waith ieuenctid mynediad agored a thargedig yn ei rinwedd ei hun. Mae pwyslais cadarn ar ddarparu gwaith ieuenctid mynediad agored ac, mewn achosion mwy targedig, mae ymgysylltu â phobl ifanc bob amser yn cael ei wneud ar sail wirfoddol.

Mae hygyrchedd gwaith ieuenctid i bobl ifanc yn ystyriaeth allweddol i BGC Cymru a'r cyrff lleol sy'n cydweithio'n dda i sicrhau bod ansawdd a chwmpas y cwricwlwm a gynigir yn eang ac yn ddeniadol i bobl ifanc sydd â llai o allu i fanteisio ar brofiadau addysgol ehangach trwy ddulliau eraill. Mae'r cyfuniad hwn o weithgareddau yn arbennig o effeithiol wrth gynnig cyfleoedd i bobl ifanc na fyddent fel arall yn ymgysylltu â gwaith ieuenctid. Fel hyn, mae'r sefydliad yn helpu i atal ynysu cymdeithasol ac addysgol yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a chymoedd pellennig. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi pobl ifanc i fanteisio ar brofiadau addysgol ehangach sy'n ddeniadol iddynt.

Mae gan BGC Cymru amrywiaeth o ymagweddau gwahanol at weithio mewn partneriaeth â chyrff gwirfoddol a statudol. Er enghraifft, mae'n gweithio gyda hyb ieuenctid gwirfoddol Heddlu De Cymru i ddarparu gweithgareddau i bobl ifanc, a gyflwynir o dan reolaeth cytundeb partneriaeth lluosog. Mae BGC Cymru wedi hwyluso datblygiad yr hyn oedd yn weithgarwch recriwtio i gadetiaid yr heddlu, sydd bellach yn brosiect heriol a hwyl sy'n ychwanegu at fywyd y gymuned.

Gall pobl ifanc fanteisio ar waith ieuenctid mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy waith ieuenctid datgysylltiedig, ar y stryd. Lle mae hyn yn digwydd, mae gweithwyr ieuenctid yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau partner lleol i helpu datblygu'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth i bobl ifanc.

Mae’r ddarpariaeth gyffredinol yn cynnwys gweithgarwch sy’n llawn hwyl ac yn ysgogi dysgu ehangach. Er enghraifft, mae’r gweithgarwch bowls dan do yn Llansawel, a gyflwynir ar y cyd gan BGC Cymru a’r clwb ieuenctid lleol, yn hyrwyddo datblygiad medrau corfforol a chydsymud, medrau cyfathrebu mewn tîm, a chynllunio tactegol. Hefyd, mae’n herio rhagdybiaethau am weithgarwch sy’n berthnasol i oedran. Mae’r bobl ifanc yn datblygu medrau dan do, ac wedyn yn datblygu i chwarae mewn amgylchedd bowls awyr agored. Nid yn unig y mae hyn yn datblygu medrau bowls pobl ifanc, mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu’n gadarnhaol ag oedolion.

O ran clybiau ieuenctid sy’n rhannu lleoliad â chlybiau chwaraeon, yn aml, mae arweinwyr chwaraeon yn gweithio gyda gweithwyr ieuenctid i ehangu’r cynnig cyffredinol i bobl ifanc. Yn ogystal, caiff arweinwyr chwaraeon eu hannog i ymgymryd â hyfforddiant gwaith ieuenctid, y mae BGC Cymru yn hwyluso’i ddarparu. Mae Clwb Bechgyn a Merched Abercynffig yn cyfuno byd gwaith ieuenctid a chwaraeon fel hyn yn llwyddiannus, gan hyrwyddo cynnwys pobl ifanc yn y ddau, yn aml ar yr un pryd.

## Arwain a gwella

Cenhadaeth BGC Cymru yw ‘cefnogi pob person ifanc i fwy bywyd iach a hapus, datblygu medrau newydd, cael hwyl a gwneud cyfraniad ystyrlon at eu cymuned’. Mae’r sefydliad yn gwireddu’r genhadaeth hon trwy gefnogi a chyfrannu at y ddarpariaeth yn eu clybiau ieuenctid cyswllt a thrwy brosiectau pwrpasol sy’n cynnig mynediad i weithgareddau a phrofiadau a fyddai, fel arall, y tu hwnt i gyrraedd clybiau unigol. Trwy’r ymagweddau hyn, mae BGC Cymru yn hyrwyddo buddiannau pobl ifanc mewn rhai o’r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae llais pobl ifanc yn chwarae rhan bwysig mewn nodi a datblygu blaenoriaethau strategol BGC Cymru. Mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys a’u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac i ddysgu a deall eu rôl, er enghraifft mewn prosesau democrataidd. Mae adroddiadau chwarterol gan swyddogion yn rhoi gwybodaeth i’r ymddiriedolwyr a sicrwydd am y gwaith sy’n cael ei wneud i fodloni dyheadau eu blaenoriaethau strategol. Mae grwpiau aelod lleol yn chwarae rhan weithgar a defnyddiol yng ngwaith yr is-grwpiau sy’n goruchwylio’r blaenoriaethau strategol.

Ers 2022, mae BGC Cymru wedi mynd trwy broses newid arwyddocaol ac uchelgeisiol. Fe wnaeth hyn newid ei statws i fod yn sefydliad corfforedig elusennol, ynghyd â newidiadau i’w bersonél allweddol, ei gyfeiriad a’i strwythur llywodraethu.

Mae cadeirydd yr ymddiriedolwyr, gyda chefnogaeth dda grŵp o ymddiriedolwyr profiadol, wedi bod yn ddylanwadol wrth ddatblygu’r cyfeiriad strategol newydd. Mae’r Prif Weithredwr yn cynnig arweinyddiaeth gadarn, hynod egnïol ac atyniadol, ac mae tîm brwdfrydig a medrus o weithwyr ieuenctid a staff cymorth yn ei gefnogi’n dda.

Caiff meysydd ffocws darpariaeth BGC Cymru eu datblygu gan y grŵp arweinyddiaeth a rheolaeth ac mae rhanddeiliaid, clybiau cyswllt, gweithwyr ieuenctid a llais pobl ifanc yn llywio’r rhain. Mae’r meysydd blaenoriaeth yn llywio cynlluniau’r gwasanaeth, sydd ag amcanion a thargedau clir, er, o bryd i’w gilydd, mae diffyg manylder ynddynt. Mae rheolwyr yn gwerthuso effaith eu gwaith trwy amrywiaeth o ddulliau adborth, sy’n cynnwys gwybodaeth a gesglir gan eu gweithwyr ieuenctid o’u

hymgysylltiad â'u clybiau cyswllt. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth am ansawdd y ddarpariaeth uniongyrchol, neu anghenion datblygu staff a materion sy'n dod i'r amlwg i bobl ifanc yn eu darpariaeth uniongyrchol a chyswllt, yn cael ei chasglu'n ddigon systematig i helpu llywio blaenoriaethau, hyfforddiant a chefnogaeth.

Mae ffrydiau cyllid penodol sydd â'u gofynion adrodd ac atebolrwydd eu hunain yn llywio agweddau eraill ar y ddarpariaeth. Yn yr achosion hyn, mae'r sefydliad yn gweithio'n briodol i fodloni'r meini prawf hyn. Mae BGC Cymru yn adweithiol ac yn ystwyth yn y ffordd y mae'n ymateb i ffrydiau cyllid posibl fel y byddant ar gael. Fwyfwy, mae BGC Cymru yn ystyried sut y gall sicrhau ffynonellau cyllid eraill trwy gysylltiadau â'r sector preifat i gyflawni ei flaenoriaethau strategol. Mae BGC Cymru wedi sefydlu cysylltiadau cadarn iawn â chyrff cenedlaethol, awdurdodau lleol a sefydliadau partner eraill. Gyda'i gilydd, mae'r cysylltiadau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr amrywiaeth o gyfleoedd a phrosiectau y gall eu cyflwyno.

Fel mater o drefn, mae BGC Cymru yn cynnal asesiadau risg priodol cyn ymgymryd â theithiau a gweithgareddau gyda phobl ifanc. Hefyd, yn sefydliadol, mae'r uwch dîm wedi nodi'r risgiau strategol allweddol a chamau gweithredu i liniaru'r risgiau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau ffynonellau cyllid hirdymor, cynllunio ar gyfer olyniaeth a recriwtio a chadw gweithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr.

Mae BGC Cymru yn ymwybodol iawn o effaith tlodi ar bobl ifanc a'u cymunedau. Gwnânt yn siŵr bod pobl ifanc o deuluoedd incwm isel yn gallu cymryd rhan yn llawn yn eu holl weithgareddau trwy gynnig cymorthdaliadau ar gyfer eu teithiau a'u hymweliadau tramor. Mae BGC Cymru yn sicrhau bod gweithgareddau o fewn cyrraedd yr holl bobl ifanc, ni waeth beth fo'u cefndir. Mae dulliau ac arferion BGC Cymru yn dangos bod yr agenda tlodi yn flaenllaw yn eu meddwl ac yn cefnogi sut maen nhw'n gweithio ac yn blaenoriaethu eu hadnoddau.

Mae dysgu proffesiynol a datblygu'r gweithlu yn gryfder arbennig ac mae BGC Cymru yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i ymestyn cymwysterau proffesiynol eu staff. Mae ethos o ddatblygu parhaus a myfyrio, ac ymrwymiad cadarn parhaus i ddysgu proffesiynol. Maent yn cynnig ariannu'r diploma ôl-raddedig mewn gwaith ieuenctid yn rhannol i weithwyr sydd wedi gweithio yn y mudiad am flwyddyn neu fwy ac, ar hyn o bryd, mae un gweithiwr ieuenctid yn astudio'r rhaglen hon. Ar hyn o bryd, mae gan bedwar gweithiwr ieuenctid gymwysterau lefel 6 ac mae gan bob un o'r gweithwyr ieuenctid eraill gymwysterau lefel 2 a 3. Mae'r pwyslais hwn ar ddatblygu unigolion yn helpu i ddenu a chadw gweithlu ieuenctid sydd wedi cymhwyso'n broffesiynol. O ganlyniad, mae'r holl weithwyr ieuenctid canolog wedi cymhwyso'n briodol yn unol â'r JNC ac wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Dechreuodd llawer o'r gweithwyr ieuenctid hyn fel aelodau o'r clwb, gan symud ymlaen i statws gweithiwr ieuenctid cwbl gymwysedig. Hefyd, mae'r mudiad yn cynnig cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith a goruchwyliaeth hanfodol i fyfyrwyr cyrsiau gwaith ieuenctid.

Mae gan BGC Cymru ddiwylliant diogelu priodol gyda phrosesau a gweithdrefnau clir yn sail iddo. Mae staff yn deall y disgwyliadau ohonynt a'u cyfrifoldebau. Mae gan glybiau cyswllt eu trefniadau llywodraethu eu hunain, ond maent yn manteisio ar gymorth ac arweiniad defnyddiol gan BGC Cymru, pan fydd angen.

Mae gan yr holl weithwyr ieuenctid a gyflogir yn ganolog wiriadau perthnasol y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (GDG) sy’n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Mae’r bwrdd gweithredol yn adolygu’r polisi diogelu yn flynyddol. Mae BGC Cymru yn helpu i hwyluso a hyrwyddo diwylliant diogelu yn eu grwpiau cyswllt trwy ddarparu gwiriadau’r GDG iddynt yn rhad ac am ddim a darparu mynediad i fodiwlau dysgu proffesiynol ar arferion diogelu i’r staff sy’n rhedeg y clybiau cyswllt. Hefyd, mae staff canolog yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd ar arferion diogelu a rheoli risg. Yn ddiweddar, cynhaliont gynhadledd ddiogelu wedi’i hariannu gan Erasmus+, gyda 28 o weithwyr ieuenctid yn bresennol, gan gynnwys cynrychiolwyr o Sbaen, yr Almaen a Chroatia. Fe wnaeth y gynhadledd alluogi’r cynrychiolwyr i rannu amrywiaeth o adnoddau ac ennill cipolwg i ymarfer a dulliau trwy eu rhyngweithiadau â phartneriaid.

Mae BGC Cymru yn cydnabod mai cyfyngedig fu eu cynnydd wrth wireddu dyheadau eu polisi iaith Gymraeg ac nid ydynt wedi mapio sut maent yn bwriadu cyflawni’r dyheadau hyn dros gyfnod. Mae’r prif weithredwr yn aelod o Fwrdd Cyfranogiad Gweithredu’r Gymraeg gwaith ieuenctid, sy’n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru, ac mae o’r farn bod y cysylltiad hwn yn gam tuag at ddatblygu’r agwedd hon ar eu gwaith.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Ymwelodd arolygwyr Estyn â BGC Cymru am dridiau a hanner yn ystod Mawrth 2024. Hefyd, ymwelont â rhai lleoliadau cyswllt i arsylwi ymarfer yn ystod yr wythnos cyn yr arolygiad.

- Ymwelodd tri arolygydd ac un arolygydd cymheiriaid â sesiynau gwaith ieuenctid mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws Cymru, gan gynnwys arsylwi rhywfaint o waith o bell, ar-lein. Hefyd, cyfarfuont â gweithwyr ieuenctid, rheolwyr, pobl ifanc, ymddiriedolwyr a staff o amrywiaeth o bartneriaid a lleoliadau cyswllt.
- Hefyd, bu arolygwyr yn craffu ar adroddiadau, dogfennau a data a ddarparwyd gan BGC Cymru.
- Dadansoddodd arolygwyr adborth a ddarparwyd trwy arolygon i bobl ifanc, staff a phartneriaid, hefyd.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2024